



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

1. Blwyddyn 2 i 4 – Testun – ‘Anifail’.

Ni fu cystadlu.

2. Blwyddyn 5 i 6. Testun – ‘Cerdded’

Dau gystadleuydd, a’r naill a’r llall yn dangos addewid a dychymyg. Mae ‘Cerdded’ yn rhoi hanes Mabon yn cychwyn yn anfoddog am yr ysgol, yn poeni ei fod wedi colli ei fag, a’i fam yn galw arno’n ddiamynedd. Ond yna, ar ei ffordd i’r ysgol, dyma un digwyddiad yn newid ei ddiwrnod yn gyfan gwbl.

Rhoddodd ‘Lolipop’ deitl *Y Llwybr Hud* i’w gwaith, ac fe ddaliodd y stori hon fy sylw o’r cychwyn cyntaf. Breuddwyd neu ffantasi sydd yma, ac wedi ei hadrodd yn syml fel bod rhywun yn llwyr gredu’r digwyddiadau rhyfeddol.

Mae ‘Lolipop’ yn llawn haeddu’r wobr.

3. Blwyddyn 7 i 9. Testun – ‘Newid’

Yr oedd yn galonogol iawn gweld wyth ar hugain wedi ymgeisio: mae’n amlwg fod newid yn taro tant yng nghalonau llawer. Yr hyn sy’n gyffredin yng ngwaith nifer fawr o’r ymgeiswyr yw diffyg newydd-deb, a throï o gwmpas yr un thema: mae newid o’r ysgol gynradd i fynd i’r ysgol uwchradd yn digwydd dro ar ôl tro. Ambell waith, mae hyn yn cael ei gyfleu yn sensitif iawn, gyda fflachiadau o wreiddioldeb, ond y mae tuedd hefyd i fod yn ailadroddus. Mae angen talu sylw hefyd i Gymraeg ysgrifenedig, ac ymdrechu i fod yn fwy cywir a graenus.

Ymysg y goreuon, y mae *Bachgen Bach*, *Gilbert*, *Afalporffor*, *Tywod Gwlyb*, *Melyn* a *Blodwen*. Darn ffeithiol sydd gan *Tywod Gwlyb*, yn nodi sut y mae hi ei hun wedi newid, a sut y gwêl yr un fath o newid yn ei chyfeillion: mae ganddi sawl sylw treiddgar. *Afalporffor* yw un o nifer o ymgeiswyr a ddewisodd ffurf y dyddiadur, ond yn wahanol i lawer ohonynt, nid cofnod am newid ysgol sydd yma: mae’n canolbwyntio yn hytrach ar un digwyddiad trawmatig, sef marwolaeth ac angladd taid. Ysgrifennu sensitif iawn. Mae *Melyn* wedi ysgrifennu stori am deithio dros y byd, ac y mae yma ddawn i ysgrifennu’n fywiog. Gall *Gilbert* gyfuno’r ffeithiol a’r ffuglennol; mae’n cychwyn trwy ddatgan yn union beth yw newid, a sut y mae’n digwydd mewn gwahanol



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

ffyrdd, ac â ymlaen i ddarlunio hyn trwy greu stori am un unigolyn. Darn crefftus iawn, sy'n dangos y broses o newid meddwl un person. Awn i fyd gwahanol iawn gyda gwaith *Blodwen*: stori am ferch sydd yma yn mynd at goeden - ond yn fwy na hynny, mae rhywun yn teimlo fod y goeden ei hun hefyd yn gymeriad, ac yn rhoi nerth i'r ferch i greu newid. Rwy'n hoffi'r cyffyrddiadau o ffantasi, ac yn bendant, y mae yma afael cadarn ar iaith, a dawn ddisgrifiadol wych. Un ymgeisydd yn unig, sef *Bachgen Bach*, sydd wedi creu darn ar ffurf llythyr, ac fe wnaeth hynny yn dwyllodrus o syml. 'Tomos' sy'n ysgrifennu at ei rieni, yn y flwyddyn 1942, a dinistr a galanustra'r rhyfel wedi peri ei anfon i 'bendraw'r byd, gogledd Cymru'! Stori syml sydd yn y llythyr, ond mae'n cyfleu cymaint, yn ffeithiau ac yn deimladau - ac yn gallu gwneud hynny gyda chyffyrddiadau hyfryd o hiwmor.

Roedd yn anodd dewis enillydd, ond yn y pen draw, tybiaf mai *Blodwen* sydd yn dod i'r brig, yn bennaf oherwydd ei dawn i ymdeimlo â natur ac i drosglwyddo'r teimlad hwnnw i'r darllenydd. A gosodaf *Afalporffor* a *Bachgen Bach* yn gydradd ail.

4. Rhyddiaith Blwyddyn 10 i 13. Testun – 'Rhith'.

Siomedig mai dim ond un sydd wedi cystadlu— ond fel nain i ferch ym Mlwyddyn 10, rydw i ond yn rhy ymwybodol o'r pwysau sydd ar ieuenctid yr oedran yma, felly chwarae teg i *Treorllwyn* am fentro.

Syniad diddorol sydd yma, gyda'r darn yn cychwyn yn y flwyddyn 1720, a naws dywyll, llawn bygythiad yn cael ei gyfleu. Neidiwn wedyn i'r presennol - neu i'r flwyddyn 2020 o leiaf, a Bethan yn dathlu ei phen-blwydd yng nghyfnod Covid, ac yn trefnu i gyfarfod ei ffrind. Stori arswyd mewn gwirionedd, ac rwy'n gobeithio y caiff *Treorllwyn* yr amser a'r hamdden i ehangu arni: bydd yn werth gwneud. Ac fel y saif, rwy'n credu ei bod yn haeddu'r wobr.

5. Y Fedal Ryddiaith. Testun –'Cyngor'.

Wyth ymgais a ddaeth i law, ac y mae rhywbeth i'w ganmol yng ngwaith pob un. Darn ffeithiol diddorol sydd gan *Kerato*, yn olrhain cynghorion meddygol, ac yn rhoi hanes trawsblannu organau. Byddai mwy o 'sbarc' yn yr ysgrifennu wedi codi'r gwaith hwn i lefel uwch. Stori gyffro gyda thro yn y gynffon a



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

gyflwynodd *Peredur*: yn sicr, mae yma ysgrifennu sy'n dal diddordeb rhywun. Ond ryw'n teimlo mai pytiau sydd yma, nid stori gyflawn: mae angen undod i gynnal y diddordeb. Dyma yw'r bai yng ngwaith *Teithlyfr Mali* hefyd; mae yma stori yn bendant, ond mae angen rhoi mwy o gnawd ar esgyrn hanes a allai fod yn wirioneddol afaelgar.

Mae gan *Hannah* ddarn teimladwy am ddychwelyd i hen gartref y teulu, a gall gyfleu i'r dim y tristwch o weld diflaniad byd cyfarwydd, a'r chwithdod o'i oresgyn gan newydd-ddyfodiaid anghyfiaith. Ysgrifennodd *Hedyn* am gyfyng gyngor Mared ar gyfnod penodol yn ei bywyd, gan lwyddo i ddarlunio'r gwrthdaro sy'n bod ym mywyd gwraig mewn swydd gyfrifol sy'n golygu rhoi cyngor i eraill, a hithau'n wynebu'r newidiadau sy'n digwydd iddi, a'r amryfal gyngorion a anelir at fenywod yn yr un sefyllfa. Darn o ysgrifennu pwerus iawn. Mae ymson *Gwreiddyn* hefyd yn gafael yn syth: mae yma ddawn bendant i gyfleu llawer mewn ychydig eiriau, gan dynnu sylw at yr unigrwydd sy'n taro pan fo unigolyn fu'n rhan o bâr yn gorfod ymdopi â bywyd wedi marwolaeth y cymar. Hoffais ysgrifennu byrlymus *Gorslwyd*, a'r gwrthgyferbyniad deheuig rhwng cyngor y fodryb i'w nith am sut i bluo gwyddau, a chyfarwyddiadau'r nith wrth ei modryb am sut i ddelio â chreadur sy'r un mor anystywallt, sef ffôn clyfar. Mae yma graffter, a hiwmor.

Hiwmor hefyd sydd yn y gwaith a gyflwynodd *Caws a Llyffant* – yr unig ymgeisydd, gyda llaw, i ddehongli'r testun yn yr ystyr o gorff etholedig. A faint ohonom sy'n gyfarwydd â chyrff tebyg i Gyngor Trefnu Trefniadau Plwy' Llangorniog? Heb sôn am fod wedi dioddef cyfarfodydd tebyg i'r un mae Gwen, y traethydd druan, yn ei ddarlunio mor greffus yn y darn bychan brathog hwn... Mae gan *Caws a Llyffant* ddawn y gwir ddychanwr, a hyn sy'n rhoi iddi/iddo Fedal Ryddiaith Eisteddfod Caerdydd eleni.

Mae'n siŵr y bydd modd ysgrifennu dramodig eithaf da am gyfyng gyngor beirniad wrth ddyfarnu'r ail a'r trydydd safle, gan mor agos at ei gilydd y mae'r ymgeiswyr. Gosodaf *Gorslwyd* yn ail, a *Hedyn* yn drydydd, gyda chanmoliaeth uchel iddynt oll.

6. Llên Meicro. Testun – Dau.

Cafwyd chwe ymgais wahanol ac amrywiol dros ben. Storiâu byrion sydd gan *Arfryn* a *Nyrs*, yn hytrach na storiâu meicro fel y cyfryw - oes, mae gwahaniaeth



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

rhwng y ddau, ac nid oes fawr o olion cynildeb llên meicro yma. Mae *Christa a Cloch* wedi'i deall hi'n well: *Christa* yn gallu cyfleu'r tyndra rhwng dau berson heb wastraffu geiriau, a *Cloch*, gyda darn byrraf y gystadleuaeth, o bosib yn dweud mwy na neb.

Gallwn ddeall yn iawn beth sy'n digwydd yn 'Dwy Ddolen' gan *Chwilen*, a theimlo'r hyn sy'n cael ei gyfleu, heb fod angen geiriau.

O Un i Un a gyflwynodd yr ymgais fwyaf diddorol: mae angen mwy o amser i dreiddio i holl haenau ystyr yr awdur hwn, a bydd hynny'n talu ar ei ganfed. *O Un i Un* sy'n cael y wobwr.

7. Adolygiad o 'Llygad Dieithryn'

Trueni mai dim ond dau a ymgeiodd, ond y mae'r naill a'r llall wedi deall hanfod adolygu: nid broliant mohono; mae angen ennyn diddordeb y darllenydd i fynd at y llyfr, ond heb ddatgelu popeth - gwaith yr awdur yw hynny!

Mae Llygaid craff yn canolbwyntio fwy ar allanolion y nofel: y clawr, y broliant, ac yn rhoi amlinelliad bras o gynllun y nofel, ynghyd â sylwadau a barn yr adolygydd ei hun am bethau y tu hwnt i gwmpas y nofel. Byddai'r adolygiad ar ei ennill o hepgor y sylwadau hynny, ond mae'n adolygiad digon derbyniol. a bod yn fwy treiddgar. Yn ymgais Glasgoed, cawn ddadansoddiad deallus a threiddgar o'r nofel, gyda'r arddull bytiog yn addas, er y gellid bod wedi ymestyn ambell frawddeg i beri i'r gwaith lifo'n well. Mae'n llawn haeddu'r wobwr.

8. Rhyddiaith y Dysgwyr. Testun – 'Agor'.

Un ymgais a dderbyniwyd, ac y mae Keira Louise Pritchard i'w chanmol am feistrol'r iaith cystal: mae yma eirfa gyfoethog, a dilyniant da i'r hanes. Dylid rhoi mwy o sylw i fanion gramadegol a threiglo (ac y mae'r cyngor hwn yr un mor berthnasol i'r Cymry iaith-gyntaf hefyd!) Mae'n bleser darllen gwaith gan rywun sydd yn amlwg ag uchelgais, ac yn gweld drysau'n agor o'i blaen. Rhodder y wobwr gyntaf iddi.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

19. Beirniadaeth Tlws yr Ifanc. (Rhyddiaith)

Ymgeisiodd pump yn y categori Rhyddiaith, ac y mae i bob un ei rinweddau.

Rwy'n hoffi stori natur *Treorllwyn* - ei symlrwydd sy'n apelio ataf. Mae *Nel* hefyd yn ymddangosiadol syml, yn defnyddio dyfais llais plentyn bach i gyfleu hynny. Gall greu ymdeimlad o arswyd cynyddol, ond nid yw'r stori fel petai'n mynd i unman yn y diwedd.

Amhendatrwydd y diwedd glo sy'n amharu ar waith *Jim* hefyd; er hynny, mae'n gallu ysgrifennu deialog yn fywiog, gan gyfleu'r tyndra rhwng sgwrs allanol a meddyliau mewnol cymeriad.

Rwy'n teimlo mai dechreuad stori sydd gan *Gelli*; mae yma ddarn o fyfyrddod, a llaw gelfydd yn datgelu'n raddol y mae'r cymeriad yn tueddu i ohirio pethau, yn weithredoedd ac yn benderfyniadau. Eto, nid oes yma wir ddiwedd glo. Yn sicr, byddai'r stori hon ar ei hennill o'i hymestyn, gan fod yma ysgrifennu trawiadol.

Pan ddown at *Paté*, gwelwn ddawn ar waith i greu cameo bychan, gan rywun sydd wedi deall hanfod ysgrifennu da, sef awgrymu yn hytrach na dweud. Mae cymaint mwy na'r hyn sy'n ymddangos ar yr wyneb yn sgwrs *Nel* a *Nerys* wrth iddynt baratoi'r cinio Nadolig. Os oes gwendid, tybiaf mai'r diwedd sy'n siomi rhywun, gan ei fod braidd yn ffwr-bwt. Deuparth gwaith yw ei ddechrau, ie - ond mae angen talu sylw i'r diwedd glo hefyd. Er hynny, y mae gwaith *Paté* yn darlunio'r testun 'Cysylltiad' (a'i ddiffyg) yn gelfydd iawn, ac y mae'n llawn haeddu Tlws yr Ifanc.



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

19. Beirniadaeth Tlws yr Ifanc. (Barddoniaeth)

Ymgeisiodd pump yn y categori Rhyddiaith, ac y mae i bob un ei rinweddau. Rwy'n hoffi stori natur *Treorllwyn* - ei symlrwydd sy'n apelio ataf. Mae *Nel* hefyd yn ymddangosiadol syml, yn defnyddio dyfais llais plentyn bach i gyfleu hynny. Gall greu ymdeimlad o arswyd cynyddol, ond nid yw'r stori fel petai'n mynd i unman yn y diwedd.

Amhendranrwydd y diwedd glo sy'n amharu ar waith *Jim* hefyd; er hynny, mae'n gallu ysgrifennu deialog yn fywiog, gan gyfleu'r tyndra rhwng sgwrs allanol a meddyliau mewnol cymeriad.

Rwy'n teimlo mai dechreuad stori sydd gan *Gelli*; mae yma ddarn o fyfyrddod, a llaw gelfydd yn datgelu'n raddol y mae'r cymeriad yn tueddu i ohirio pethau, yn weithredoedd ac yn benderfyniadau. Eto, nid oes yma wir ddiwedd glo. Yn sicr, byddai'r stori hon ar ei hennill o'i hymestyn, gan fod yma ysgrifennu trawiadol.

Pan ddown at *Paté*, gwelwn ddawn ar waith i greu cameo bychan, gan rywun sydd wedi deall hanfod ysgrifennu da, sef awgrymu yn hytrach na dweud. Mae cymaint mwy na'r hyn sy'n ymddangos ar yr wyneb yn sgwrs *Nel* a *Nerys* wrth iddynt baratoi'r cinio Nadolig. Os oes gwendid, tybiaf mai'r diwedd sy'n siomi rhywun, gan ei fod braidd yn ffwr-bwt. Deuparth gwaith yw ei ddechrau, ie - ond mae angen talu sylw i'r diwedd glo hefyd. Er hynny, y mae gwaith *Paté* yn darlunio'r testun 'Cysylltiad' (a'i ddiffyg) yn gelfydd iawn, ac y mae'n llawn haeddu Tlws yr Ifanc.

Tri a fentrodd i'r gystadleuaeth â'u cerddi. Mae clust dda gan y tri bardd ond teimlem yn gyffredinol eu bod wedi cael llai o hwyl arni na'r awduron rhyddiaith.

Braf oedd gweld dwy ymgais ar fydr ac odl, ac mae'n amlwg bod *Miri* a *Ffergi Lwyd* yn gallu ymglywed â gofynion rhythm ac odli yn fedrus. Sôn am y tristwch o golli cysylltiadau o bob math a wna *Miri* - 'colli ffrind, colli cariad neu golli ffydd'. Er nad yw hynny'n beth braf, ein hannog i geisio derbyn y realiti hwn a wna'r bardd a chwilio yn hytrach 'am gysylltiad miri'. Gwaetha'r modd, doedd hi ddim yn berffaith glir beth yw'r miri hwn y sonnir amdano a byddai wedi bod yn braf gweld y gerdd yn cael ei datblygu ymhellach i geisio cyfleu ei apêl. Portread annwyl o wŷr o'r enw Michael Bach a gawn gan *Ffergi Lwyd*. Dysgwn am ei wreiddiau y tu hwnt i Gymru ond yna'i fagwraeth yn Nefyn, am ei bersonoliaeth 'chwarter call' ac am ei ddi-ddordeb mewn gwahanol foduron a



Beirniadaethau gwaith cartref 2024

thwls. Er nad yw *Ffergi Lwyd* yn dweud hynny'n blaen, synhwyrwn mai taid iddo neu iddi oedd y gŵr a ddarlunnir, ac mae'n bortread cynnes, annwyl a diffuant.

Efallai mai'r bardd mwyaf uchelgeisiol yw *Cynwyd*, sydd â cherdd fwy estynedig yn y wers rydd. Mae'r dweud yn fwy delweddol a throsiadol o bosib, er ei fod yn mentro ychydig yn rhy bell i dir haniaeth heb inni ddeall yn union beth a drafodir bob amser. Yma darllenwn am y golau yn mynd 'ar bererindod i'r tywyllwch. Cawn gyfarfod hefyd â cholomen sydd yn 'sganio'r tir â'i lygaid barcud'. Gallai cymysgu delweddau fel hyn fod yn ddryslyd braidd, neu gallai fod yn arwydd o fenter – mae'n biti nad oes digon o gliwiau yn y gerdd inni allu deall a barnu'n iawn. Wedi dweud hynny, eiddo *Cynwyd* yw'r canu mwyaf telynegol a delweddol o blith y tri. Doeddwn i ddim wir yn gweld y cysylltiad rhwng y gerdd ei hun a'r dyfyniad o *Animal Farm* Orwell ar frig y ddalen, ond y mae ddweud gafaelgar a dyfeisgar dros ben, fel pan ddisgrifir y golomen yn cyrraedd 'diben clogwyn / ei hamynedd', neu'r gwynt 'yn oernadu / fel cath gynnddeiriog' cyn gweld 'Calfaria'n tyfu o flaen ei llygaid' – arbennig. O gynilo ychydig ac egluro rhywfaint ar y naratif, gallai *Cynwyd* fod yn gystadleuydd peryglus iawn.

O blith yr awduron rhyddiaith roedd *Jim* a *Pâté* ychydig yn uwch na'r lleill gen i. Mae gan *Jim* glust arbennig o dda at ddeialog ac at gyfleu golygfeydd credadwy a bachog gan grisialu pobl mewn ychydig eiriau; ychydig yn fwy aneglur yw ail hanner y stori a gallai wneud ag ailddrafftio er mwyn dewis yn well faint o gliwiau a gwybodaeth i'w rhannu â'r darllenydd, a phryd. Rhoes *Pâté* ar y llaw arall ddosbarth meistr inni mewn dweud tipyn mwy neu cryn dipyn yn llai o eiriau; cefais y cyfuniad o gynildeb ac eglurder croyw yn swynol iawn, gyda dogn dda o hiwmor craff at hynny hefyd. Llongyfarchiadau mawr felly i *Pâté* sydd yn llwyr haeddu'r wobwr mewn cystadleuaeth dda.